Gweddïwn dros: Esgobaeth Bulavu – Province de L'Eglise Anglicane Du Cong
Ardal Gweinidogaeth y Rhath a Cathays, y Parchedig Ganon Stewart Lisk, arweinydd
Dydd Sadwrn 3 Hydref:
Job 42:1-6, 12-17; Salm 119:169-176, Luc 10:17-24
Gweddïwn dros: Esgobaeth Bukedi – Eglwys Anglicanaidd Wganda
Ardal Gweinidogaeth De Caerdydd, y Parchedig Dean Atkins (arweinydd)

Ein Stori Lawen

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:
Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd
Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Curad / Curate: Y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 07712387203
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

27 Medi 2026
Trindod XVII

10.30am Y Foreol Weddi a Phregeth
Salm: 124
Darlleniadau: Eseciel 37:15-28
I Ioan 2:22-29
Darllenwyr: Mair Matthews / Tim Saunders
Emynau: 291 (Fanconia II); 320 (Saffron Waldon)
265 (Bethany 193)

6.00pm Y Cymun Bendigaid "Ochenaid y Cread"
Darllenwyr: Gaynor Williams / Rhys Jones
Emynau: *ar daflen*

YN EIN GWEDDÏAU
Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Dilys Hicks, Eleri Hughes, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

Yn yr Eglwys:

Nos Fawrth 29 Medi 2026
6.00pm Ymarfer Côr

Dydd Mercher 30 Medi 2026
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 4 Hydref 2026
Trindod XVIII
8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth

HENO: OCHENAID Y CREAD
Heno am 6pm bydd trefn y gwasanaeth Cymun yn dilyn ffurf arbennig i ganolbwyntio ar Dduw y Creawdwr a Christ yn y greadigaeth a'n cyfrifoldeb fel stiwardiaid doeth o'r hyn oll sydd wedi cael ei osod yn ein gofal. Croeso i bawb.

Y SUL NESAF: HANNER MARATHON CAERDYDD
Cynhelir yr Hanner Marathon yn y ddinas bore Sul nesaf, 4 Hydref, sy'n golygu bod nifer o'r heolydd ar gau yng nghanol yn ddinas. Serch hynny, mae modd cyrraedd yr eglwys yn weddol ddidrafferth ar hyd Heol y Gogledd, Heol Colum a Park Place, felly byddwn yn cynnal ein gwasanaethau yn ôl yr arfer. Erbyn y gwasanaeth 6.00pm bydd yr heolydd i gyd yn agored fel arfer a'r traffig wedi cilio. Am ragor o wybodaeth ewch i: https://www.cardiffhalfmarathon.co.uk/app/uploads/2023/09/CHM-2023-Road-Closure-Map-compressed.pdf

YR YSGOL SUL
Oherwydd y Marathon y Sul nesaf bydd yr Ysgol Sul yn symud o'r 4 Hydref i'r 11 Hydref i gyd-fynd â'n gwasanaeth Diolchgarwch am 10.30pm.

DIOLCHGARWCH AM Y CYNHAEAF
Byddwn yn cynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch dydd **Sul 11 Hydref** gyda gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid am 10.30am. Ein pregethwr gwadd eleni fydd yr Hybarch Matthew Hill, Archddiacon Caerfyrddin. Bydd cinio y cynhaeaf yn y neuadd yn syth ar ôl y gwasanaeth. Er mwyn helpu gyda'r gwaith o ddarparu'r lluniaeth a fyddech garediced â rhoi eich enw i Delyth Davies os ydych yn bwriadu aros i ginio.

GWASANAETH CHWE-IEITHOG DROS ZOOM
Mae Caplan Gorsedd Cernyw, y Parchedig Jane Kneebone yn trefnu gwasanaeth aml-ieithog dros Zoom gan ddod â'r chwe iaith Geltaidd sef Cernyweg, Cymraeg, Llydaweg, Manaweg, Gwyddeleg a Gaeleg at ei gilydd mewn un weithred o addoliad prynhawn **Sul 27 Medi am 3pm**. Os nad ydych wedi derbyn y ddolen ac os hoffech ymuno â'r gwasanaeth arbennig hwn anfonwch neges at y Ficer.

Y GANOLFAN GLYD
Mae EDS ar ddyletswydd yn y Ganolfan Glyd dydd **Sul 4 Hydref**. Diolch i bawb sydd wedi gwirfoddoli i helpu yno Sul nesaf. Bydd angen bod yn Festri'r Tabernacl erbyn 1.30pm.

CYNGERDD AWR GINIO
Ar ôl saib yn ystod yr haf, bydd y cyngherddau awr ginio o dan nawdd Actifyddion Artisig Caerdydd yn ailgychwyn **dydd Mawrth 6 Hydref am 1.00pm** gyda chyngerdd gan bumawd llinynnol Chamber Principals o Lundain. Sylfaenydd y pumawd yw Sergey Levitin, cyfarwyddwyr cerddorfa'r Tŷ Opera Brenhinol. Bydd y rhaglen yn cynnwys gweithiau gan Imogen Holst, Schnittke a Mozart. Tocynnau wrth y drws am £6.50.

ALLWEDD AR GYFER LLAIN PARCIO EDS 2026 -2027
Os hoffech adnewyddu eich allwedd parcio neu archebu allwedd eleni y gost yw £100.
PWYSIG: Bydd angen i chi dderbyn allwedd newydd oherwydd bu'n rhaid i ni newid yr holl gloeon yr wythnos diwethaf.
Am ragor o wybodaeth mynnwch air â Rhys Jones.

CYLCHGRAWN CRISTION
Mae tanysgrifiad Eglwys Dewi Sant i Cristion, cylchgrawn cyd-enwadol yn ddyledus o ddechrau mis Medi. Os hoffech adnewyddu eich tanysgrifiad y gost yw £14.15 am chwe rhifyn am y flwyddyn 2026 – 2027. Os hoffech danysgrifio o'r newydd mynnwch air â Rhys Jones

CLOCH DEWI
Yr ydym yn paratoi rhifyn o Gloch Dewi i'w gyhoeddi ddechrau mis Hydref. Os hoffech gyfrannu erthygl, pwt bach neu lluniau a fyddech chi garediced â'i anfon at Wyn Mear: wyn@wynmears.com erbyn 30 Medi os gwelwch yn dda.

GWARCHOD YR EGLWYS
Lynette Allen, Heulwen Jones ac Alison Stone fydd ar ddyletswydd dydd Mercher 30 Medi

GWEDDÏAU'R SUL

- Eglwys Bangladesh,
- Ardal Gweinidogaeth Cymoedd Llynfi ac Uwch Afan, y Parchedig Rick Gratton (Arweinydd)

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun 28 Medi:
Job 1:6-22; Salm 17:1-8; Luc 9:46-5
Gweddïwn: Esgobaeth Buganda Ganolig, Eglwys Anglicanaidd Wganda
Ardal Gweinidogaeth Porthcawl a Chynffig, arweinydd i'w benodi

Dydd Mawrth 29 Medi: Gŵyl Fihangel a'r Holl Angylion
Genesis 28:10-17; Salm 103:19-22; Datguddiad 12:7-12; Ioan 1:47-51
Gweddïwn dros: Esgobaeth Gorllewin Buganda, Eglwys Anglicanaidd Wganda
Eglwys Gadeiriol Llandaf, y Tra Pharchedig Jason Bray (Y Deon), y Parchedig Ganon Ian Yemm (Canon Pen-cantor), y Parchedig Ganon Kate Harrison (Canon Canghellor), y Parchedig Alison Dummer (Curad)

Dydd Mercher 30 Medi: Sierôm
Jab 9:1-16; Salm 88:9-14; Luc 9:57-62
Gweddïwn dros: Esgobaeth Buhiga – Eglwys Anglicanaidd Burundi
Llys Esgob, y Gwir Barchedig Mary Stallard, y Parchedig Emma Ackland (Caplan), Catherine Ellis (Ysgrifennydd)

Dydd Iau 1 Hydref:
Job 19:21-27; Salm 27:7-14; Luc 10:1-12
Gweddïwn dros: Esgobaeth Bujumbura – Eglwys Anglicanaidd Burundi
Deoniaeth Caerdydd, y Deon Bro, y Parchedig Ganon Dyfrig Lloyd

Dydd Gwener 2 Hydref:
Job 38:1:12-21; 40:1-5; Salm 139:1-18; Luc 10:13-16